

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyhoeddwyd: Ionawr 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 107A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn oedd Matthew Edwards, Dave Thomas, Mandy Townsend a Mike Usher.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio cyfrifon	8
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi gosod adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	11
Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy o fewn blwyddyn nac yn y tymor canolig eto	12
Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, ond erys maint yr her yn sylweddol o hyd ac mae angen cyflwyno newidiadau yn gyflymach eto	14
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu nifer o heriau sylweddol a bydd angen iddo fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag adnoddau mewnol, galluogrwydd a diwylliant er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.	19
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	27
Ffi archwilio	29
Risgiau archwilio sylweddol	30

Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.
Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu nifer o heriau sylweddol dros y 18 mis diwethaf. Nododd fy adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn 2013 ddiffygion mawr o ran llywodraethu. Arweiniodd newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y Bwrdd a'r tîm gweithredol at rwystrau sylweddol o ran arweinyddiaeth a bu trefniadau dros dro ar waith am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pryderon ynglŷn ag ansawdd mewn rhai gwasanaethau a maint y bwloch ariannol oll yn gofyn am sylw rheolwyr, ac yn pwysleisio'r angen i ailennyn hyder y cyhoedd. Ni chyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig yn gynharach yn 2014, ac ym mis Tachwedd 2014 trosglwyddodd Llywodraeth Cymru statws y Bwrdd Iechyd i lefel uwch.
5. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr (CEO) a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2015 a chaiff copi ei roi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun (www.archwilio.cymru).
6. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Archwilio cyfrifon

7. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Mae Adran 2 o'r adroddiad hwn yn nodi'r materion hyn yn fanwl.
8. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad naratif ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at yr arian ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf er mwyn ei alluogi i gyflawni ei dargedau ariannol a methiant i gael cymeradwyaeth Gweinidogion o'i gynllun tair blynedd ar adeg fy nhystysgrif.
9. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
 - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;

-
- roedd gan y Bwrdd lechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
 - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd lechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.
10. Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14, gan fynd i wariant net o £1.229 biliwn, yn unol â'i derfyn adnoddau terfynol. Roedd hyn yn cynnwys £2.25 miliwn o froceriaeth adnoddau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ad-daladwy yn 2014-15. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed ers y llynedd ynglŷn â llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliad canlynol; er gwaethaf y cynnydd a wnaed mewn rhai meysydd, erys heriau sylweddol o ran cyllid, datrys materion llywodraethu hanesyddol a rhai agweddau ar berfformiad.

Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi datblygu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy o fewn blwyddyn nac yn y tymor canolig eto

12. Mae camau gweithredu'r Bwrdd lechyd ynghyd â chyllid adnoddau ychwanegol a broceriaeth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn wedi ei alluogi i fodloni ei derfyn adnoddau referniw ar gyfer 2013-14, ond nid oedd ei ddull o reoli ariannol yn gynaliadwy. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi methu â sicrhau dull rheoli ariannol cadarn a chynaliadwy yn 2014-15 ac mae'n wynebu risg sylweddol iawn na fydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd yn y misoedd diwethaf o ran tryloywder a strwythur cynlluniau ariannol yn ystod y flwyddyn, yn enwedig cynlluniau arbed, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r sefyllfa ariannol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, ond erys maint yr her yn sylweddol o hyd ac mae angen cyflwyno newidiadau yn gyflymach eto

13. Canfu fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig nad yw'r Bwrdd lechyd wedi pennu mewn ffordd glir a chyhoeddus sut y caiff gwasanaethau clinigol eu trefnu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru ac mae wedi pennu targed uchelgeisiol o amlinellu cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd. Er bod y strwythur rheoli newydd wedi cael ei lunio a bod ymgynghoriad yn ei gylch, nid

yw wedi cael ei weithredu'n llawn eto, sy'n ychwanegu at ansicrwydd yn y sefydliad, ac mae'r amserlen i'w weithredu'n llawn yn heriol. Er bod gweinyddiaeth y Bwrdd wedi gwella, yn gyffredinol mae angen i brosesau sicrwydd y Bwrdd gael eu hatgyfnerthu ymhellach mewn rhai meysydd pwysig. Ar nodyn cadarnhaol, cyflwynodd y Bwrdd adroddiad ansawdd a pherfformiad integredig newydd ym mis Tachwedd 2014 ac mae cynlluniau ganddo i ddatblygu adroddiadau rheoli ymhellach Mae'r Prif Weithredwr (CEO) a'r Prif Swyddog Gweithredu (COO) newydd wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, ac er bod arwyddion o gynnydd yn erbyn rhai targedau cenedlaethol, erys perfformiad yn erbyn eraill yn heriol. Mae cyflymder y broses newid yn bryder o hyd, er bod rhywfaint o gynnydd pwysig wedi cael ei wneud yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi bod y Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu nifer o heriau sylweddol a bydd angen iddo fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag adnoddau mewnol, galluogrwydd a diwylliant er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.

14. Nododd fy ngwaith y negeseuon allweddol canlynol:

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod ei fod wedi cael problemau o ran cynllunio, rheoli newid ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, ond ceir arwyddion o gynnydd cadarnhaol yn ystod y misoedd diwethaf.
- Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal. Prin y mae'n deall y galw amdano, nid oes sicrwydd bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac ni all fonitro perfformiad, ansawdd na diogelwch na chyflwyno adroddiadau arnynt. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu na wyddys beth yw potensial y Gwasanaeth Nyrsys Ardal i helpu i newid cydbwysedd gofal tuag at y gymuned.
- Er gwaethaf y buddsoddiad cadarnhaol a'r ffocws ar godio clinigol yn y Bwrdd lechyd, gallai diffyg prosesau codio cyson, ymgysylltu clinigol isel a mynediad araf at gofnodion meddygol effeithio ar gywirdeb y data ar godio clinigol o bosibl.
- O ran gwasanaethau orthopedig, canfuwyd bod galw cynyddol ac angen am ddefnyddio'r adnoddau presennol yn fwy effeithiol yn arwain at arosiadau hir cyn apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig a thriniaeth i gleifion mewnol o fewn y gwasanaethau orthopedig. Ar ôl i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty maent fel arfer yn cael arhosiad byr yn yr ysbyty, er y gellid defnyddio adnoddau ar gyfer cleifion mewnol yn well ac mae angen i rai canlyniadau ar ôl llawdriniaeth wella.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn dangos arwyddion o gynnydd mewn llawer o'r meysydd lle rwyf wedi gwneud argymhellion archwilio yn y gorffennol, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud a rhwystrau diwylliannol a sefydliadol sylweddol i'w goresgyn.

15. Rydym yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd lechyd yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

16. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.
17. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; ac
 - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
18. Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
 - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
 - fy archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
19. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn [Atodiad 1](#).
20. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
 - Adran 1: Archwilio cyfrifon
 - Adran 2: Trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau
21. Rhydd [Atodiad 2](#) yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.
22. Yn olaf, mae [Atodiad 3](#) yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a wynebhir gan y Bwrdd Iechyd, fel y'u nodwyd yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 23.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 24.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 25.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 26.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi gosod adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

- 27.** Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno sef 2 Mai 2014 ac roeddent o safon uchel. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac roedd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Mae'r amcangyfrifon sylweddol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf â chroniadau (gwariant gofal sylfaenol a chyflog gwyliau) a darpariaethau (Gofal Iechyd Parhaus,

esgeuluster clinigol, anaf personol ac eraill). Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Ni chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

28. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 3 Mehefin 2014. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Cafodd trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd eu tanseilio sawl gwaith yn ystod y flwyddyn.	<p>Nodais i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd gael eu torri sawl gwaith yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Roeddwn yn fodlon nad oedd unrhyw un o'r achosion hynny o dorri'r Cyfarwyddiadau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, wedi effeithio'n andwyol ar y farn ynglŷn â rheoleidd-dra, er i mi nodi pryderon bod methiannau i gadw at y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn tanseilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r Archwiliad Mewnol sy'n mynd rhagddo a gwaith adolygu arall ar raglen gyfalaf Ysbyty Glan Clwyd, ac mae fy nhîm wrthi'n monitro hynt y gwaith hwnnw. Roeddwn yn fodlon nad effeithiodd hyn ar fy archwiliad o gyfrifon 2013-14.</p>
Roedd angen i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft gael ei ailolygu.	<p>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'm tîm ar 7 Mai 2014, yn unol â therfyn amser Llywodraeth Cymru y cytunwyd arno. Er i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft adlewyrchu'r fformat templed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd angen ei ailolygu ymhellach er mwyn gwella strwythur a llif y ddogfen er mwyn cynorthwyo'r darlennydd. O ganlyniad, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig ar 22 Mai 2014.</p>

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Triniaeth gyfrifyddu o drefniadau prydlesu etifeddol a drosglwyddwyd oddi wrth gyrff a'i rhagflaenodd.	Yn 2012-13 nodais fater a oedd yn ymwneud â thriniaeth gyfrifyddu trefniant prydlesu etifeddol ar gyfer Ysgol Nyrzio Fron Heulog ym Mhrifysgol Bangor, a etifeddwyd oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn 2009. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i adolygu triniaeth Fron Heulog a threfniadau etifeddol eraill fel mater o frys er mwyn sicrhau datgeliad llawn a phriodol yn natganiadau ariannol 2013-14. Tra bod cyd-drafodaethau â Chydwasaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleuster wedi bod yn mynd rhagddynt, ni chafodd y mater ei ddatrys mewn pryd i lywio'r broses o baratoi datganiadau ariannol 2013-14. Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael i ni daethom i'r casgliad na fu camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol.
Triniaeth gyfrifyddu mynegeo	Nodais fod y Bwrdd Iechyd yn un o nifer o gyrff iechyd yng Nghymru a nododd nad oeddent wedi gwrthdroi unrhyw achosion o leihad yn y gwerth yn ystod y flwyddyn, yn groes i ofynion Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae cofrestr asedau'r Bwrdd Iechyd yn credydu pob achos o fynegeo i'r gronfa ailbriso wrth gefn p'un a gafodd gwerth ased ei leihau'n flaenorol ai peidio. Fe'm hysbyswyd gan y Bwrdd Iechyd na allai fesur effaith unrhyw gamddatganiad posibl gan y byddai'n golygu ymarfer helaeth â llaw. Fodd bynnag, roedd wedi gofyn i ddarparwr ei feddalwedd ddatblygu diweddariad rhaglen er mwyn datrys y broblem yn 2014-15. Dylai hyn alluogi'r Bwrdd Iechyd i fesur effaith unrhyw gamddatganiad posibl. Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael i ni daethom i'r casgliad na fu camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol.

29. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:
- **Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan** – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti mewn contract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2014, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
 - **Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol** – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
30. Paratowyd datganiadau ariannol elusennol drafft 2013-14 y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2014. Roedd paratoi'r datganiadau ariannol drafft yn gynnar yn adeiladu ar y trefniadau cau cynnar a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn blynyddoedd blaenorol. Rhoddais farn ddiamed ar y datganiadau ariannol elusennol ar 27 Mehefin 2014.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

- 31.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol i asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy wall neu dwyll.
Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r brif system gyfrifyddu, prosesau rheoli cyllidebol a chau ac asesiad o'r seilwaith cyfrifiadurol a'r rheolaethau cymhwyso.
- 32.** Ystyriodd fy nhîm waith a rôl archwilio mewnol fel rhan o'r asesiad hwn hefyd. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt, yn enwedig y ffaith i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gael eu torri sawl gwaith.

33. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Gorffennaf 2014. Yn benodol, bu nifer o bwysau cyllidebol mawr iawn a chafodd trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd eu tansellio sawl gwaith yn ystod y flwyddyn:
34. Fel yn ystod y flwyddyn flaenorol, cafodd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd eu torri sawl gwaith yn ystod y flwyddyn, gan danseilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r Archwiliad Mewnol sy'n mynd rhagddo a gwaith adolygu arall mewn perthynas â rhaglen gyfalaf Ysbyty Glan Clwyd, ac rydym wrthi'n monitro cynnydd y gwaith hwnnw.
35. Yn ogystal, nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu er mwyn gwella'r gwendidau ym maes rheolaeth a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.
36. Deuthum i'r casgliad hefyd fod rheolaeth gyllidebol a threfniadau monitro yn ddigon cadarn i roi sicrwydd i ni nad oedd y datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiad perthnasol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r heriau ariannol sylweddol yn 2014-15 a thu hwnt. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

37. Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
 - adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o fantoli'r gyllideb;
 - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Aseiad Strwythuredig, gan gynnwys yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd ynglŷn â llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr;

- defnydd penodol o waith adnoddau ar nyrsio ardal, codio clinigol, gwasanaethau orthopedig ac adolygiadau o archwiliadau lleol; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar waith dilynol ar argymhellion blaenorol (ynghlŷn â staffio ar y wardiau, meddygon locwm a gwasanaethau cleifion allanol), gwaith dilynol ar Theatrau a Llawdriniaeth Ddydd a'm Hadolygiad ar y Cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o waith Dilynol ar Drefniadau Llywodraethu ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain hynt argymhellion archwilio allanol.

38. Crynhoir priif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy o fewn blwyddyn nac yn y tymor canolig eto

Bu camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd ynghyd â'r arian adnoddau ychwanegol a broceriaeth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn fodd iddo fodloni ei derfyn adnoddau referniw ar gyfer 2013-14, ond nid oedd ei ddull rheoli ariannol yn gynaliadwy, gyda dibyniaeth fawr ar arbedion anghylchol.

- 39.** Mae'r GIG yng Nghymru wedi wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda setliadau 'arian parod gwastad' a mwy o alw am wasanaethau. Yn seiliedig ar ddyraniad adnoddau a ragwelwyd o £1.181 biliwn, amcangyfrifodd y Bwrdd fod ganddo fwllch ariannu cychwynnol o £78 miliwn yn 2013-14. Nododd y Bwrdd Iechyd nifer o gynlluniau arbedion ar waith ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2013-14 i leihau'r bwllch hwn £38.9 miliwn, gan adael diffyg amcangyfrifedig o £39.1 miliwn i'w lenwi gan fesurau effeithlonrwydd eraill nas nodwyd.
- 40.** Drwy gydol 2013-14, rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru sylw manwl i'r alldro misol cofnodedig a'r rhagolwg o sefyllfa'r diffyg ar ddiwedd y flwyddyn. Diweddarwyd y rhagolygon yn rheolaidd ac, yn ôl yr arfer, gwnaed addasiadau amrywiol i derfyn adnoddau'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu gweithgareddau cytûn penodol a gyflawnwyd ynghyd â'u costau. Effaith net yr addasiadau hyn ar ôl y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn oedd terfyn adnoddau diwygiedig o £1.197 biliwn, ac, o ganlyniad i hynny, ragolwg o ddiffyg o £29.0 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.
- 41.** Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol arian adnoddau ychwanegol, sef £150 miliwn i GIG Cymru, er mwyn ateb galw a phwysau newydd yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Cafodd y Bwrdd Iechyd £30.9 miliwn o'r swm hwn, a gyfrannodd at ostwng ei ragolwg o'r diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ym mis saith i £9.0 miliwn, ar ôl ystyried pwysau cost eraill nas nodwyd o'r blaen gan y Bwrdd Iechyd. Erbyn mis 10, roedd y rhagolwg o'r diffyg ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng i £7.5 miliwn, ac erbyn mis 11 i ddim ond £4 miliwn.
- 42.** Ar 11 Ebrill 2014 cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ragolwg o orwariant o £2.25 miliwn yn erbyn ei derfyn adnoddau ar gyfer 2013-14, ac am y tro cyntaf, gwnaed cais i

Lywodraeth Cymru am froceriaeth adnoddau ar gyfer y diffyg hwn. Cafodd y Bwrdd Iechyd £2.25 miliwn gan Lywodraeth Cymru i wrthbwysu'r gorwariant y mae'n rhaid iddo ei ad-dalu yn ystod 2014-15. Methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei darged o ran arbedion hefyd yn 2013-14. Cafodd arbedion gwerth tua £40 miliwn eu nodi a'u sicrhau, ac er bod hwn yn gyflawniad sylweddol, cafwyd dibyniaeth fawr ar arbedion anghylchol. Ni nodwyd cynlluniau arbedion ychwanegol i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu yn llawn.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy eto yn 2014-15 ac mae'n wynebu risg sylweddol na fydd yn mantoli'r gyllideb

- 43.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn gyllid fwy hyblyg. Mae'n darparu dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd i fyrddau Iechyd Lleol fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blwyddyn ariannol yn hytrach na phob blwyddyn. Mae'r ddeddf yn galluogi byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio eu penderfyniadau ynghylch cynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid a'u gweithredu dros gyfnod hirach sy'n haws ei reoli ac mae'n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n eu hannog i wneud penderfyniadau byrdymor sy'n seiliedig ar y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd ariannol yn dibynnu ar allu cyrff y GIG i lunio cynlluniau tymor canolig integredig sy'n ddigon cadarn a bod y cynlluniau hynny'n cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Weinidogion Cymru.
- 44.** Mae'r ddyletswydd statudol i lunio cynllun tymor canolig integredig treigl dros dair blynedd, gan ddechrau o 2014-15, a'i gymeradwyo'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru, yn sylfaen hanfodol dros ddarparu gwasanaethau Iechyd cynaliadwy o safon. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na allai gymeradwyo cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd. Nododd Llywodraeth Cymru bryderon mawr ynglŷn â'r cynllun arfaethedig a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd gan nad oedd yn bodloni ei gofynion. O ganlyniad, torrodd y Bwrdd Iechyd y ddyletswydd statudol newydd hon, ac wedyn datblygodd gynllun blwyddyn.
- 45.** Nododd y cynllun blwyddyn ar gyfer 2014-15 yr heriau eithafol o ran cynllunio a rheoli ariannol yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu. Nododd fwch ariannu o fwy na £75 miliwn rhwng ei derfyn adnoddau blynyddol a'i wariant net cynlluniedig ar gyfer 2014-15. Roedd hyn yn cynnwys ad-dalu'r swm o £2.25 miliwn a frocerwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013-14. Yna diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei darged o ran arbedion ar gyfer 2014-15 (y bwlch ariannu) ym mis Awst 2014 i £92 miliwn (sy'n cyfateb i 7.4 y cant o'i gyllideb refeniw) ar ôl nodi'r angen am fuddsoddi ychwanegol er mwyn cyflawni targedau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- 46.** Yn ystod pedwar mis cyntaf 2014-15, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld yn gyson ddiffyg o £35 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Nodwyd nifer o anghysondebau hefyd rhwng y naratif a'r ffigurau yn adroddiadau cyllid y Bwrdd Iechyd ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst 2014. O ganlyniad diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei orwariant blynyddol 'mwyaf tebygol' ar ddiwedd y flwyddyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2014, gan ei ddyblu bron i £63 miliwn.

-
47. Ar 30 Tachwedd, roedd rhagolwg y Bwrdd Iechyd o'i orwariant blynyddol mwyaf tebygol yn dal i fod yn £63 miliwn. Mae maint y cynnydd yn ffigurau'r rhagolwg rhwng mis Awst a mis Medi 2014 yn tansellio hyder yn adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. Er i ragamcanion mewnol y Bwrdd Iechyd nodi'r gorwariant tebygol uwch, parhaodd i gyhoeddi ffigur is am sawl mis pan oedd yn gwybod ei fod yn afrealistig.
48. Mae cynlluniau arbedion annigonol wedi cael eu nodi a'u gweithredu hyd yma a nododd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi gorwario mwy na £49 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2014. Mae cynlluniau arbedion 2014-15 yn profi'n anodd i'w cyflawni. Erbyn mis Tachwedd 2014 roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi dros £33 miliwn o gynlluniau arbedion a oedd yn rhyddhau arian parod a bron £7 miliwn mewn mesurau osgoi costau, sef dim ond 44 y cant o'r arbedion angenrheidiol. Erys bwlch cynilion o bron £52 miliwn o hyd.
49. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd ar ei hôl hi o ran sicrhau ei leihad arfaethedig mewn costau. Erys pwysau ariannol sylweddol yng Ngrwpiau Rhaglenni Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Meddygaeth Arbenigol, Llawdriniaeth a Deintyddiaeth ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu nifer o bwysau cost ychwanegol, gan gynnwys costau asiantaeth (meddygol a nyrsio) misol. Gwnaeth y defnydd o asiantaeth nyrsio ym maes gofal heb ei drefnu gynyddu'n sylweddol rhwng mis Awst a mis Hydref 2014 ac mae'r costau'n rhedeg yn sylweddol uwch nag yr oeddent yn y flwyddyn ariannol flaenorol.
50. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o gamau gweithredu lliniaru gan gynnwys nodi arbedion ychwanegol a defnyddio cronfa wrth gefn ar gyfer amseroedd aros 'Rhwng Atgyweirio a Thriniaeth'. Maent yn annhebygol o fod yn ddigonol i lenwi'r bwlch ariannol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, er gwaethaf y cymorth ychwanegol a ragwelir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn debygol o leihau'r risg ariannol gyffredinol yn ystod y flwyddyn ond bydd yn dal i adael bwlch ariannol gweddilliol y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael ag ef yn ystod pedwar mis olaf y flwyddyn ariannol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw unrhyw gamau i wneud arbedion yn y byrdymor yn peryglu iechyd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Bydd angen hefyd iddo sicrhau nad yw mesurau arbed byrdymor yn peryglu diogelwch clinigol na mynediad at wasanaethau i'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf.
51. Gan edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol na welwyd eu tebyg erioed o'r blaen yn y tymor canolig – mae ei Strategaeth Gyllidebol flynyddol ar gyfer 2014-15 yn rhagweld her ariannol gynyddol a fydd yn cynyddu i £186 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17. Hyd yma, ychydig o gynnydd a wnaed o ran yr angen brys i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn glinigol, ynghyd ag integreiddio gwasanaethau cymorth yn fwy.

Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, ond erys maint yr her yn sylweddol o hyd ac mae angen cyflwyno newidiadau yn gyflymach eto

- 52.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ar lywodraethu a sicrwydd bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:
- cynnydd o ran ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn ein gwaith dilynol ar yr adolygiad o drefniadau llywodraethu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystod gwanwyn 2014;
 - cynllunio strategol;
 - strwythur y sefydliad;
 - sicrwydd bwrdd a rheolaethau mewnol; a
 - rheoli perfformiad.

Nododd gwaith dilynol ar ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru rywfaint o gynnydd ym mis Mehefin 2014, ond roedd cyflymder newidiadau yn dal i fod yn bryder.

- 53.** Gweithiodd fy nhîm yn agos gyda staff Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar waith dilynol ar ein hadolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu a gyhoeddwyd yn 2013 yn ystod gwanwyn eleni. Ym mis Gorffennaf 2014, nodwyd¹ *'Er bod tystiolaeth o gynnydd, a rhywfaint o gynnydd sylweddol, roedd nifer o heriau sylfaenol a nodwyd gennym y llynedd yn dal i fodoli a bod llawer o waith gan y Bwrdd Iechyd i'w wneud o hyd cyn y gellir ystyried bod ei drefniadau llywodraethu a rheoli yn gwbl addas at y diben.'*
- 54.** Cydnabu ein hadroddiad ar y cyd y gwaith caled gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym y llynedd, yng nghyd-destun cyfnod estynedig o newid ac ansicrwydd ynglŷn â strwythurau arwain ar lefel uwch. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod heriau sylweddol o hyd, a bod angen mynd i'r afael â hwy ar fyrder er mwyn i'r Bwrdd Iechyd ailennyn hyder ei staff, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn ei allu.
- 55.** Byddaf yn cynnal adolygiad pellach o gynnydd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystod gwanwyn/haf 2015.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio mewn ffordd glir a chyhoeddus sut y caiff gwasanaethau clinigol eu trefnu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru eto ac mae wedi pennu targed uchelgeisiol o amlinellu cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd

- 56.** Ni chyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig statudol dros dair blynedd ym mis Mawrth 2014, er nad ef oedd yr unig fwrdd iechyd yn y sefyllfa hon. Nodais fod cynllun blwyddyn y Bwrdd Iechyd yn uchelgeisiol o ran maint y camau

¹ Arolwg o Drefniadau Llywodraethu: <http://www.wao.gov.uk/publication/overview-governance-arrangements-betsi-cadwaladr-university-health-board>

gweithredu yr oedd angen eu cymryd i fantoli'r gyllideb. Mae gweledigaeth ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau yn y dyfodol yn dechrau cael ei datblygu bellach, ond hyd yma ceir diffyg manylion a chynlluniau clir i'w trafod yn ffurfiol yn gyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu nodi cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig newydd ond mae'r amserlen ar gyfer hyn yn uchelgeisiol. Cydnabu'r Bwrdd Iechyd y bylchau yn ei adnoddau a'i arbenigedd ei hun, a chomisiynwyd Deloitte ganddo i helpu i ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd ar gyfer mis Ionawr 2015. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith y tu ôl i'r llenni i helpu i ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda chleifion, partneriaid a gwleidyddion. Mae'r Cynllun yn gyfle i ddechrau ailennyn hyder rhanddeiliaid.

Mae strwythur sefydliadol newydd wedi cael ei lunio ac ymgynghorwyd yn ei gylch, ond nid yw wedi'i weithredu'n llawn eto, sy'n ychwanegu at ansicrwydd, ac mae'r amserlen yn heriol.

- 57.** Mae angen mynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig yn y strwythur sefydliadol ar sail Grwpiau Rhaglenni Clinigol ar fyrder, ac rwy'n cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud tuag at y nod hwn. Mae'r amser a gymerwyd i benodi'r Prif Weithredwr wedi effeithio ar gyflymder y broses newid, a thros y chwe mis diwethaf dechreuodd penodeion gweithredol newydd allweddol eraill yn y Bwrdd Iechyd, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r tîm gweithredol newydd ar waith yn llawn eto, a bwriedir cyflwyno newidiadau pellach i linellau adrodd a chyfrifoldebau. Ymgynghorodd y Prif Weithredwr newydd yn llawn ar y strwythur sefydliadol newydd arfaethedig yn ôl yr angen, ac ymgysylltodd â'i weithlu er mwyn ceisio sicrhau bod staff yn perchenogi'r strwythur newydd ac yn ei ddeall. Fodd bynnag, effeithiodd y cam pwysig hwn hefyd ar gyflymder y broses newid, gan ymestyn y cyfnod o ansicrwydd gan nad yw'r strwythur ar waith eto, a chreodd bwysau o ran terfynau amser, sy'n golygu bod gweithredu'r strwythur yn llawn y flwyddyn ariannol hon yn ymddangos yn heriol.
- 58.** Yn fy marn i, bydd risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu yn dal i fodoli nes bod y strwythur newydd ar waith.

Er bod gweinyddiaeth y Bwrdd wedi gwella, mae angen atgyfnerthu prosesau sicrwydd cyffredinol y Bwrdd ymhellach.

- 59.** Rwyf wedi gweld gwelliannau o ran ansawdd papurau'r Bwrdd, eu hamseroldeb ac yn y ffordd y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd, ond erys lle o hyd i fyrhau cyfarfodydd, gwella eglurder papurau, ac atgyfnerthu adroddiadau sicrwydd gan Bwyllgorau'r Bwrdd. Gwelodd fy nhîm dystiolaeth bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio'n fewnol, a bod heriau pwysig yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd bellach. Fodd bynnag, er bod materion yn cael eu hamlygu bellach a'u gwyntyllu'n gyhoeddus, mae angen rhagor o waith diwydrwydd dyladwy er mwyn cael sicrwydd ehangach a sicrhau bod pob mater hanesyddol yn cael ei amlygu.
- 60.** Ceisiodd y Bwrdd Iechyd gyngor allanol i atgyfnerthu fframwaith sicrwydd a risg y Bwrdd, a'i strwythurau pwyllgor, a bwriedir gweithredu ar hynny ar ddechrau 2015. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risgiau a'r ffordd y mae'r

Bwrdd yn rheoli risg a'r awydd i fentro. Nododd fy nhîm nad oedd pob risg sylweddol wedi'i chynnwys ar y gofrestr risgiau ym mis Hydref 2014 a bod rhywfaint o'r iaith yn aneglur (ee, disgrifiadau o risgiau staffio nad oeddent yn egluro maint y ddibyniaeth ar staff locwm ac asiantaeth). Fodd bynnag, mae'r fformat newydd a roddwyd ar waith ym mis Tachwedd 2014 yn gam sylweddol ymlaen, o ran cwmpasu risgiau sylweddol hysbys, y fformat ac eglurder iaith.

- 61.** Mae fy ngwaith ar berfformiad yn dangos bod rheolaethau mewnol wedi gwella, ond bod angen gwneud rhagor o gynnydd. Er enghraifft, mae Archwilio Clinigol yn fwy strwythuredig bellach, ond mae lle i gysylltu archwilio clinigol yn agosach â risg a strategaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol 'gofynnol' ar waith bellach, a cheir tystiolaeth o archwiliadau a ysgogwyd gan feysydd o risg neu bryder hysbys yn 2014, ac ystyriodd y Pwyllgor Archwilio gynllun archwilio clinigol yn ystod 2014. Fodd bynnag, mae strategaeth archwilio clinigol strwythuredig, ffurfiol sy'n gysylltiedig â strategaeth y Bwrdd Iechyd, effeithiolrwydd clinigol ac anghenion a nodwyd yn ffurfiol, yn hytrach na buddiannau clinigwyr unigol, yn dal i fod yn fwch. Nododd fy staff fylchau hefyd mewn prosesau sicrwydd i fonitro cynnydd o ran gweithredu argymhellion o ffynonellau allanol.
- 62.** Mae gwaith fy nhîm wedi nodi arwyddion o gynnydd o ran adroddiadau cyhoeddus tryloyw. Yn benodol, roedd y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn llawer cryfach eleni, o ran y broses ddatblygu, y sylw llawnach i feysydd gofynnol, ac, yn hollbwysig, o ran cyflwyniad ac iaith o safbwynt y cyhoedd.
- 63.** O ran gwariant cyfalaf, nododd y gwendidau llywodraethu a amlygwyd gan brosiect gwaredu asbestos Ysbyty Glan Clwyd fod diffyg her a throsolwg cadarn a phriodol, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio mynd i'r afael â hwy ers hynny. Mae hefyd wedi comisiynu adolygiad allanol annibynnol o'i raglen gyfalaf ddiwygiedig a'i drefniadau rheoli prosiect, a disgwylir canlyniadau'r adolygiad hwnnw ar ddechrau 2015. Os bydd hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd cadarnhaol ynglŷn â chadernid y trefniadau diwygiedig, yna dylai hynny, yn ei dro, helpu'r Bwrdd Iechyd i ailennyn hyder Llywodraeth Cymru, gan roi cyfle o bosibl i wneud ceisiadau yn y dyfodol am arian cyfalaf a fydd yn unol â Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.
- 64.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau ac arddangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli argymhellion a wneir fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014 ac ymateb iddynt. Canfu'r gwaith hwn, er i'r Pwyllgor Archwilio o 2012 ymlaen sefydlu trefniadau olrhain ar gyfer fy argymhellion, nad yw rheolwyr bob amser yn diweddarau'r adnodd hwn yn amserol, ac nad yw ychwaith bob amser yn glir y bydd y camau gweithredu yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Bydd fy nhîm yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn 2015 er mwyn sicrhau bod ymatebion yn ddigonol i sicrhau'r gwelliant a ddymunir, ac yn ddigon amserol.

Cyflwynodd y Bwrdd adroddiad ansawdd a pherfformiad integredig newydd ym mis Tachwedd 2014 ac mae'n bwriadu datblygu adroddiadau rheoli ymhellach.

- 65.** Cynhaliodd y Bwrdd sesiwn ddatblygu ar 30 Hydref er mwyn amlinellu gofynion gwybodaeth reoli diwygiedig i ategu prosesau sicrwydd a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd. Arweiniodd y gwaith hwn at gyhoeddi adroddiad perfformiad newydd o fis Tachwedd 2014. Mae'r adroddiad newydd yn dal i ddatblygu, ond yn gadarnhaol.
- Caiff gwybodaeth ei chrynhoi'n dda a chaiff canfyddiadau o wahanol ffynonellau eu trioglu'n briodol. At hynny, mae gweithgarwch yn erbyn y cynllun, gweithgarwch a gomisiynwyd a metrics lleol yn dechrau cael eu cynnwys.
 - Bwriedir gwneud iteriadau pellach er mwyn ehangu'r metrigau ansawdd a chomisiynu, a'r bwriad yw y bydd y rhain yn mynd i'r afael â phryderon blaenorol o ran adroddiadau ar ansawdd gwasanaethau a gomisiynwyd, gan gynnwys metrics cymunedol a gofal sylfaenol.
 - Mae rheolwyr gweithredol yn defnyddio'r un metrigau a'r un data â'r Bwrdd bellach. Mae'r dull gweithredu hwn ar sail haenau yn lleihau'r bwlch rhwng y Bwrdd a'r Ward drwy greu dealltwriaeth gyffredin o berfformiad.
- 66.** Y cam nesaf yw adroddiad llywodraethu integredig, a bydd fy staff yn monitro'r trefniadau hyn sydd wrthi'n datblygu yn ystod 2015.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu newydd wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, ac er bod arwyddion o well perfformiad yn erbyn rhai targedau cenedlaethol, erys perfformiad yn erbyn eraill yn heriol

- 67.** Disodlwyd y Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol gan y tîm gweithredol o fis Hydref 2014; mae hyn yn cynnwys swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr lefel bwrdd, ac mae'n cyfarfod yn wythnosol. Ar yr un pryd, diddymwyd yr hen Fwrdd o Gyfarwyddwyr, ac ad-drefnwyd cyfarfodydd uwch reolwyr eraill. At hynny, mae'r swyddogion gweithredol allweddol, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Cyllid, bellach yn cynnal 'cyfarfodydd perfformiad' yn fisol â Grwpiau Rhaglenni Clinigol, lle maent yn craffu'n fwy dwys ar y grwpiau hynny sy'n cael anawsterau.
- 68.** Bwriedir i'r strwythur sefydliadol newydd arfaethedig atgyfnerthu atebolrwydd ymhellach, a bydd fy staff yn adolygu damcaniaeth a gweithrediad y strwythur newydd hwn yn 2015. Nodais yn y gwaith dilynol ar yr adolygiad ar y cyd i fframwaith atebolrwydd newydd gael ei ddatblygu'n gynharach yn 2015, ond bydd angen ailystyried hyn pan fydd y strwythur sefydliadol newydd ar waith.
- 69.** Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y trefniadau rheoli perfformiad newydd yn wynebu heriau sylweddol. Yn benodol:
- mae perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn targedau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi dirywio ers 2013 ac nid yw gweithgarwch yn unol â thrywyddion gwell y Bwrdd lechyd ei hun;
 - dim ond 58 y cant o feysydd â blaenoriaeth sydd ar y trywydd cywir i gyflawni eu targed (yn ôl adroddiad perfformiad y Bwrdd lechyd ei hun ym mis Tachwedd 2014); ac

-
- er bod rhai arwyddion cynnar o welliant mewn perfformiad yn erbyn targedau Haen Un (ee strôc, gofal diogel ac atal) mae angen gwella perfformiad mewn amrywiaeth eang o dargedau eraill (canser (targed 62 diwrnod), gofal brys, Rhwng Atgyfeiro a Thriniaeth a chyllid).

Mae cyflymder y broses newid yn bryder o hyd, er bod rhywfaint o gynnydd pwysig wedi cael ei wneud yn ystod y misoedd diwethaf

70. Mae swyddogion gweithredol unigol wedi arwain cynnydd mewn nifer o feysydd. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliant o ran trefniadau ansawdd a diogelwch, gyda phrosesau craffu cryfach ar lefel y Bwrdd Iechyd a'r Grŵp Rhaglen Glinigol ac enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd lle y bo angen. Nodais y gallai negeseuon allweddol gael eu hidlo gan y Swyddog Gweithredol Sicrhau Ansawdd, er nad oedd hyn yn digwydd yn ymarferol yn ôl pob golwg ac mae risg o hyd y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ei rheoli. At hynny, cymerodd amser i ddatblygu amseriad a dilyniant cyfarfodydd a sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Bydd fy staff yn monitro cynnydd drwy gydol 2015.
71. At hynny, canfuwyd bod y broses o gofnodi a dysgu oddi wrth brofiad defnyddwyr, digwyddiadau a chwynion wedi gwella'n sylweddol ers diwedd 2013, ac rwy'n cydnabod bod llawer o'r cynnydd hwn o ganlyniad i'w dwyn ynghyd o dan un swyddog gweithredol arweiniol a gwella adnoddau o ran uwch swyddogion. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd ar gofnodi a dysgu o bryderon staff yn amlwg eto.

-
- 72.** Fodd bynnag, nid yw meysydd lle mae angen gweithredu ar y cyd gan y Bwrdd neu'r tîm gweithredol cyfan wedi datblygu yr un mor gyflym. Er i mi nodi bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau wedi'u holrhain a'u cofnodi bellach, a bod datblygiadau ar lefel y Bwrdd a'r tîm gweithredol yn mynd rhagddynt, mae datblygiadau eraill, megis papurau sicrwydd pwyllgorau, yn cael eu gohirio nes bod y strwythur pwyllgorau newydd ar waith. At hynny, gwelodd y gallu i graffu drwy benodi Cynghorwyr newydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, a bydd pedwar penodiad IM yn 2015. Bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn gael effaith. Yn yr un modd, bydd yn cymryd amser i ailennyn hyder.
- 73.** Ar ddiwedd 2014, o ganlyniad i bryderon ynglŷn â chyflymder y broses newid mewn nifer o feysydd, a'r sefyllfa ariannol ddirywiol, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru statws y Bwrdd Iechyd i'r lefel uchaf ond un o ran ymyrryd: 'ymyriad wedi'i dargedu'². Mae'r ymyriad hwn ar gam adrodd a diagnosis cychwynnol ar hyn o bryd, ond yn y pen draw bwriedir iddo sicrhau adnoddau ychwanegol a galluogrwydd newydd i'r uwch dîm rheoli a helpu'r tîm gweithredol newydd i gyflymu'r broses o newid o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu nifer o heriau sylweddol a bydd angen iddo fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag adnoddau mewnol, galluogrwydd a diwylliant er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod wedi cael problemau o ran cynllunio, rheoli newid ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, ond ceir arwyddion o gynnydd cadarnhaol yn ystod y misoedd diwethaf

- 74.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi nodi i'r Bwrdd Iechyd wneud cynnydd o ran nifer o feysydd sy'n ymwneud â rheoli adnoddau a nodwyd gennyf mewn Asesiadau Strwythuredig mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae'n parhau i wynebu nifer o heriau sylweddol a bydd angen mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag adnoddau mewnol, galluogrwydd a diwylliant er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen. Crynhoir y canfyddiadau allweddol yn **Arddangosyn 2**.

² Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2014.
<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/escalation/?lang=cy>

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – ffactorau allweddol sy'n galluogi'r defnydd effeithiol o adnoddau

Mater	Crynodeb o ganfyddiadau
Y gallu i reoli newid	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau cynllunio a rheoli newid wedi bod yn effeithiol ac mae wrthi'n sefydlu trefniadau newydd. Yn benodol, erys gwaith cynllunio ar gyfer newid gwasanaethau yn her ac ni chafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflwyno yn 2014, a chomisiynwyd cymorth ychwanegol i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2015-2018. Gan nad yw trefniadau rheoli newid wedi bod yn effeithiol hyd yma o ran ymgorffori modelau newydd o ddarparu gwasanaethau mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn ailystyried y swyddfa rheoli rhaglenni, a swyddogaethau gwella ochr yn ochr ag adolygiad o strwythurau rheoli gweithredol (paragraff 56).</p> <p>Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig yn mynd rhagddo a chaiff y maes hwn ei asesu eto yn 2015.</p>

Mater	Crynodeb o ganfyddiadau
Cynllunio'r gweithlu	<p>Erys materion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn heriol yn niffyg ad-drefnu gwasanaethau ac mae'r nifer uchel o staff dros dro yn achos pryder. Er bod canllawiau a chymorth gan yr adran ganolog i'r gweithlu ar waith, prin yw'r adnoddau o fewn y tîm hwnnw ac mae diffyg adnoddau a gallu o ran yr agweddau technegol ar gynllunio'r gweithlu yn y timau gweithredu. At hynny, mae diffyg model o drefnu gwasanaethau i gynllunio yn unol ag ef yn gwneud gwaith cynllunio'r gweithlu yn fwy anodd.</p> <p>Erys heriau sylweddol o ran y gweithlu, gyda ffocws penodol ar recriwtio meddygon a nyrsys. Mae'r gwariant ar staff banc ac asiantaeth yn cynyddu, ac yn debygol o fynd y tu hwnt i £20 miliwn yn 2013-2014. Mae rhestrau dyletswyddau staff meddygol yn cynnwys 20 y cant o feddygon locwm ac mae rhai rhestrau dyletswyddau yn gwbl ddbynnol ar feddygon locwm. Erys recriwtio yn her gyda bylchau mewn proffesiynau allweddol ac oedi mawr cyn llenwi swydd wag – ond gwelwyd cynnydd cadarnhaol o ran recriwtio nyrsys yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf o'r UE.</p> <p>Mae mesurau'r gweithlu hefyd yn heriol gyda gwybodaeth arfarnu a hyfforddi yn annibynadwy mewn rhai meysydd fel Nyrsio Cymunedol, ac mae'r prif gyfraddau ar gyfer y mesurau hyn yn wael mewn llawer o feysydd.</p> <p>Mae'n werth nodi, er bod lefelau salwch ychydig uwchlaw'r targed o 5.1 y cant, fod hyn yn cymharu'n dda â gweddill Cymru.</p>

Mater	Crynodeb o ganfyddiadau
– Ystadau ac Asedau	Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y maes hwn yn 2015.
– Partneriaethau ac Ymgysylltu â'r Gymuned	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailennyn hyder ac ymddiriedaeth yn y Bwrdd Iechyd ymhlith rhanddeiliaid ehangach yng Ngogledd Cymru. Mae partneriaid Llywodraeth Leol yn gadarnhaol ynglŷn â'r strwythur newydd arfaethedig a'r arweinyddiaeth newydd. Fodd bynnag, mae'r cyhoedd a'u dirprwyon yn canfod bod diffyg gonestrwydd a thryloywder hanesyddol – bydd yn cymryd amser i oresgyn hyn. At hynny, wrth i'r strwythur newydd gael ei roi ar waith bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llunio ffyrdd newydd o ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru; • bod yn fwy agored a thryloyw er mwyn helpu i ailfeithrin cydberthnasau ac annog trafodaethau rhesymol ynglŷn â sut beth yw gwasanaethau cynaliadwy; • eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau am reoli ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid; a • defnyddio adborth ar wasanaethau cyfredol a chynlluniau yn y dyfodol er mwyn llywio blaenoriaethau a monitro gwasanaethau (cyd-gynhyrchu).
Y defnydd o dechnoleg	Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn mynd rhagddo a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y maes hwn yn 2015, ochr yn ochr â'm canfyddiadau ar waith archwilio TG arall, gan gynnwys gwybodaeth am lywodraethu a data wrth gefn.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir na gwybodaeth ddigonol ynglŷn â'i wasanaeth nyrsys ardal; felly, ni wyddys a allai'r gwasanaeth newid y cydbwysedd gofal tuag at y gymuned

75. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned;
- mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd Iechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu;
- ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac

-
- ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd Iechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd na diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da.

Er gwaethaf y buddsoddiad cadarnhaol a'r ffocws ar godio clinigol yn y Bwrdd Iechyd, gallai diffyg prosesau codio cyson, ymgysylltu clinigol isel a mynediad araf at gofnodion meddygol effeithio ar gywirdeb y data ar godio clinigol o bosibl

76. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol ond efallai y bydd adnoddau'n annigonol, a bydd angen cysylltiadau cryfach â chofnodion meddygol, ac mae angen i'r Bwrdd ganolbwyntio mwy ar gywirdeb data codio clinigol yn ei adolygiadau. Cydnabûm fod codio clinigol yn flaenoriaeth gorfforaethol gyda pherfformiad achrededig ond prin yw'r ffocws ar gywirdeb y data wedi'u codio. At hynny, mae'r atebolrwydd am godio yn glir ond cyfyd cyfleoedd i wella ymgysylltu rhwng codwyr a chofnodion meddygol. Ar nodyn cadarnhaol, ceir ymrwymiad clir i fuddsoddi mewn codio clinigol gyda ffocws cadarnhaol ar hyfforddiant a datblygu, er na fydd lefel yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer codio yn ddigon o bosibl.
77. Effeithir ar effeithiolrwydd y broses godio gan ddiffyg ymgysylltu clinigol â staff codio mewn rhai rhannau o'r Bwrdd Iechyd, mynediad araf at gofnodion meddygol a diffyg prosesau codio cyson. Yn benodol, bu diffyg un polisi codio clinigol cyffredin yn y Bwrdd Iechyd yn hanesyddol. Nododd fy nhîm fod mynediad at wybodaeth electronig yn dda. Fodd bynnag, roedd staff y Bwrdd Iechyd yn wynebu oedi wrth gael gafael ar rai cofnodion, ar lefel safle ac arbenigedd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd. At hynny, mae ansawdd cofnodion meddygol yn amrywio o fewn y Bwrdd Iechyd, gyda safon ychydig yn uwch ar safle Maelor Wrecsam, fodd bynnag, mae maint llawer o'r cofnodion meddygol yn broblem. Canfu fy nhîm hefyd nad yw'r dull o godio yn gyson a bod yr amser a gymerir i godio yn amrywio yn ôl safle ac arbenigedd.
78. Defnyddir data wedi'u codio'n glinigol yn briodol gyda pherfformiad cyffredinol da yn erbyn safonau Llywodraeth Cymru, o ran dilysrwydd ac amseroldeb. Fodd bynnag, nodwyd meysydd i'w gwella o ran cysondeb safonau a chywirdeb, yn enwedig yn Ysbyty Gwynedd, ac nid yw'r Bwrdd yn ddigon ymwybodol o oblygiadau cywirdeb codio, y gellid ei nodi'n fwy eglur.

O ran gwasanaethau orthopedig, canfuwyd bod galw cynyddol ac angen am ddefnyddio'r adnoddau presennol yn fwy effeithiol yn arwain at arosiadau hir cyn apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig a thriniaeth i gleifion mewnol o fewn y gwasanaethau orthopedig. Ar ôl i gleifion gael eu derbyn maent yn aros yn yr ysbyty am gyfnod byr fel arfer er y gellid defnyddio adnoddau cleifion mewnol yn well ac mae angen i ganlyniadau yn sgil llawfeddygaeth wella

79. Mae fy nghasgliad ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar y data a gesglir fel rhan o'm hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau orthopedig yng Nghymru, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddechrau 2015.

-
- 80.** Casglodd fy nhîm ddata a gwybodaeth am bob rhan o'r llwybr cleifion cyfan, a ddatgelodd rai heriau i'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, mae buddsoddiad mewn gofal sylfaenol yn lleihau ar adeg pan fo cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn cynyddu ac er bod Gwasanaethau Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol ar waith, maent yn cael anhawster i ateb y galw cynyddol. Er bod gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw, mae rhai agweddau ar wasanaethau cleifion allanol yn aneffeithlon, er enghraifft, mae gan y Bwrdd Iechyd arosiadau cymharol hir am apwyntiad cyntaf fel claf allanol, a gall arosiadau am brofion radioleg fod yn hir, yn enwedig o ran sganiau Delweddu Atseiniol Magnetig. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ac mae'r arhosiad yn yr ysbyty yn fyrrach na gweddill Cymru ar y cyfan ond gellid gwneud rhagor i leihau arosiadau cyn derbyn cleifion, cynyddu cyfraddau achosion dydd a chyfraddau llenwi gwelyau a gwella'r ffordd y defnyddir theatrau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau dilynol yn gweithio'n dda ar y cyfan ond cymysg yw canlyniadau ymyriadau llawfeddygol, ar draws y Bwrdd Iechyd ac o gymharu â gweddill Cymru.
- 81.** Bydd fy nhîm yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i lunio argymhellion wedi'u teilwra ar ôl i'm hadroddiad cenedlaethol gael ei gyhoeddi yn 2015.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos arwyddion o gynnydd mewn llawer o'r meysydd lle rwyf wedi gwneud argymhellion archwilio yn y gorffennol, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud a rhwystrau diwylliannol a sefydliadol sylweddol i'w goresgyn

- 82.** Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a weir fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio fel y trafodwyd ym mharagraff 63, **mae fy ngwaith wedi canfod y canlynol :**
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos arwyddion o gynnydd ym mhob un o'r meysydd a adolygwyd, gyda mwy nag 20 y cant o argymhellion sy'n deillio o adolygiadau dilynol o staffio ward, gwasanaethau cleifion allanol a meddygol locwm wedi'u cwblhau.
 - erys cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn rhoi sicrwydd cadarnhaol bod fy argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn;
 - roedd y Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau sefydliadol a diwylliannol sylweddol i'w goresgyn er mwyn cofnodi cynnydd yn llawn ac ymgorffori newid drwy'r sefydliad cyfan, yn enwedig o ran model y Grŵp Rhaglen Glinigol a sicrhau atebolrwydd am weithredoedd; ac
 - nid oedd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n systemataidd i fesur canlyniadau ei raglenni newid, nac yn defnyddio'r dystiolaeth i ysgogi newid pellach neu ledaenu dysgu drwy'r sefydliad cyfan.
- 83.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol o wasanaethau. Oherwydd y themâu a ddaeth i'r golwg o'm gwaith dilynol, cyflwynais adroddiad ar waith dilynol staffio ward, gwasanaethau cleifion allanol a meddygon locwm yn un adroddiad cyffredin gydag atodiadau manwl ar bob pwnc.
- 84.** Crynhoir canfyddiadau fy holl waith dilynol yn ôl pwnc yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Staffio wardiau	<p>O'r gwaith dilynol o adolygiad 2010 o Staffio Ward, asesais fod un argymhelliad wedi'i gyflawni, bod tri wedi'u cyflawni'n rhannol, ac nad oedd un yn berthnasol i'r amgylchiadau presennol mwyach. Yn benodol, darniog fu'r dystiolaeth o gynnydd gwirioneddol yn erbyn argymhellion. Dychwelodd Grwpiau Rhaglenni Clinigol unigol hunanasesiadau, a oedd yn amrywio o ran manylder a ffocws, gan ei gwneud yn anodd i gael darlun corfforaethol cydlynol, gan bwysleisio'r rhwystrau sefydliadol sylweddol i gynnydd a newid drwy'r sefydliad cyfan. Ymhlith fy nghanfyddiadau allweddol roedd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gostyngodd lefelau staffio nyrsys yn 2011, gan arwain at ddibyniaeth fawr ar nyrsys banc ac asiantaeth i gynnal lefelau staffio diogel. Ar ôl i mi gyflwyno fy adroddiad yng nghanol 2014, adferwyd lefelau staffio nyrsys ac, mewn rhai achosion, roeddent yn uwch na'r hyn a welwyd cyn 2011• Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn ymwybodol o'i lefelau staffio o ran cymysgedd sgiliau a'r gymhareb rhwng nyrsys a chleifion ac roedd yn gallu dangos i'r cymysgedd o sgiliau nyrsys a'r cymarebau rhwng nyrsys a chleifion gael eu hadolygu mewn ymateb i ganllawiau staffio diogel Coleg Nyrsio Brenhinol a'r Prif Swyddog Nyrsio. Ar adeg fy archwiliad roedd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati i recriwtio er mwyn llenwi'r diffyg a nodwyd, ac yn y cyfamser roedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi prosesau ar waith i adolygu lefelau staffio nyrsys a sicrhau eu bod yn ddiogel.• Er y cyflwynir adroddiadau ar gostau staff nyrsio mewn nifer o fforymau nid oedd unrhyw dystiolaeth o gymhariaeth o gostau staff nyrsio'n ddiweddar na dangosyddion cost fesul gwely. Roedd rhagolygon y Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol³ ar gael ar gyfer 2014-17, er bod effaith y Cynllun hyd yma yn anhysbys.• Mae rhai elfennau o'n hargymhellion gwreiddiol yn dal i gael eu rhoi ar waith a bydd angen tystiolaeth fwy trylwyr bod hynny'n digwydd yn y dyfodol.

³ O dan y cynllun hwn caiff staff eu talu i adael y GIG.

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Gwasanaethau cleifion allanol	<p>Cymysg yw cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn fy argymhellion yn 2011 gyda dau o'r argymhellion wedi'u cyflawni a chwech wedi'u cyflawni'n rhannol. Nid oedd digon o dystiolaeth ynglŷn ag un argymhelliad pellach i mi lunio barn hyddysg.</p> <p>Gyda rhai eithriadau, rhoddwyd tystiolaeth dda o gynnydd o fewn yr hunanasesiad. Fodd bynnag, nid oedd y naratif hunanasesu na'r dystiolaeth ategol yn cynnwys llawer o'r canlyniadau diffiniol a fyddai'n dangos bod yr argymhellion gwreiddiol wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus.</p> <p>Er gwaethaf yr Adolygiad o Wasanaethau Cleifion Allanol, a chynnydd sylweddol mewn rhannau o'r gwasanaeth, nodais rwystrau sylweddol i gynnydd, gyda strwythur y Grwpiau Rhaglenni Clinigol yn cymhlethu prosesau gwneud penderfyniadau ac yn arafu cynnydd. At hynny, roedd diffyg strategaeth gwasanaethau clinigol y cytunwyd arni yn golygu bod y broses angenrheidiol o ail-lunio gwasanaethau cleifion allanol yn gweithio ar lefel gwasanaeth unigol yn hytrach na bod yn seiliedig ar fodel o wasanaethau yn y dyfodol y cytunwyd arno i'r Bwrdd Iechyd cyfan.</p>
Meddygon Locwm	<p>Ceir tystiolaeth o gynnydd yn erbyn fy argymhellion. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cymryd rôl weithredol o ran mynd i'r afael â materion ynglŷn â defnyddio meddygon locwm. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o gyflenwyr Master Vend, ac mae seilwaith cadarn ar waith bellach i weinyddu taliadau i feddygon locwm. At hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Ddeoniaeth o ran lleoliadau hyfforddi ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gynnig mwy o hyblygrwydd aml-safle.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at raglenni rheoli newid ymhlith ei gynlluniau ac mae'n bwriadu canolbwyntio ar lwybrau gofal fel rhan o'r broses o ail-lunio gwasanaethau at y dyfodol. Disgwylir y bydd y rhain yn gwella'r ffordd y rheolir adnoddau a galw ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar gymorth meddygon locwm. Asesais fod tri argymhelliad wedi'u cyflawni a bod naw wedi'u cyflawni'n rhannol. Nid oedd digon o dystiolaeth ynglŷn â dau argymhelliad arall er mwyn i'm tîm lunio barn. Nodais rwystrau sylweddol i wneud cynnydd. Yn bennaf, mae diffyg strategaeth gwasanaethau clinigol y cytunwyd arni nid yn unig yn effeithio ar recriwtio, ond mae hefyd wedi gwneud y gwaith o ail-lunio'r gweithlu a chyfuno rhestrau dyletswyddau yn heriol iawn.</p>

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Theatrau llawdriniaethau	<p>Bu rhywfaint o gynnydd ers 2011 ond yn gyffredinol ni fu gwelliant sylweddol ac mae heriau sylfaenol, y mae llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth y theatrau yn rhwystro cynnydd pellach. Yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ers 2011 ynglŷn â chyfraddau llawdriniaeth ddydd, ac, ar nodyn cadarnhaol, mae strwythurau rheoli yn eglur bellach. Fodd bynnag, erys heriau sylweddol o hyd ynghyd â diffyg cyfeiriad strategol neu gynlluniau trefnu gwasanaethau a phroblemau o ran llif cleifion ac arferion amrywiadwy.• Er bod y llwybr llawfeddygol yn cynnwys nifer o agweddau cadarnhaol bellach, mae arferion gweithredol gwahanol, problemau o ran adnoddau a diffyg data cadarn yn effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd theatrau.• Er gwaethaf trefniadau da i sicrhau ansawdd a diogelwch o fewn theatrau, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud fawr ddim i fonitro profiad cleifion na gweithredu ar wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Dogfen yr hyn y dylai Archwiliad ei gyflawni	Chwefror 2014
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehefin 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2014
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Elusen	Mehefin 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol– Elusen	Mehefin 2014
Barn ar Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Mehefin 2014
Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – Adroddiad Manwl	Gorffennaf 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2014
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Gorffennaf 2014
Gwaith dilynol ar theatrau llawdriniaethau	Awst 2014
Cynnydd ar argymhellion blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys Staffio Ward, Cleifion Allanol a Meddygon Locwm)	Awst 2014
Adolygiad o Godio Clinigol	Awst 2014
Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig	Tachwedd 2014
Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal	Tachwedd 2014
Asesiad Strwythuredig 2014	Tachwedd 2014
Adroddiadau eraill	
Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2014	Mawrth 2014

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Adolygiad o Ddiagnosteg TGCh	Mawrth 2015
Adolygiad o Ddata TGCh Wrth Gefn	Mawrth 2015

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Adolygiad o Reoli Meddyginiaethau	Ebrill 2015
Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol	Ebrill 2015

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014 ffi archwilio arfaethedig o £484,464 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Mae'r ffi a nodir uchod yn cynnwys y gwaith archwilio a wnaed ar y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau a Rennir.

Atodiad 3

Risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2014.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol.	Cwblheais brofion archwilio â ffocws yn ôl y bwriad ar feysydd perthnasol y datganiadau ariannol. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o ddyfarniadau nac amcangyfrifon wedi'u gogwyddo.
Mae risg annatod o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod referniw ac fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnder incwm amrywiol.	Cwblheais waith archwilio yn ôl y bwriad ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod referniw.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd lechyd yn methu â bodloni ei derfyn adnoddau refeniw. Dangosodd y sefyllfa ym mis 10 fod diffyg o £6.9 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn a rhagwelwyd y byddai diffyg o £7.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Os eir y tu hwnt i'r terfyn adnoddau byddaf yn rhoi barn amodol ar reoleidd-dra ac yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol gan esbonio'r methiant a'r amgylchiadau lle y cododd.</p> <p>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y corff gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr gael eu gogwyddo mewn ymdrech i fodloni'r Terfyn Adnoddau Refeniw.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwyddo wrth gofnodi.</p>	<p>Adolygais drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, materion pwysig o ran y sefyllfa ariannol a meysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys mantoli ariannol.</p> <p>Deuthum i'r casgliad i'r Bwrdd lechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol ond dim ond oherwydd arian adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn a thrwy sicrhau arbedion y llwyddwyd i wneud hynny, ond nad oedd y ffordd y sicrhawyd arbedion yn gynaliadwy.</p>
<p>Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd lechyd yn methu â bodloni ei derfyn adnoddau cyfalaf gan fod gwariant cyfalaf ar ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd yn fwy na'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl erbyn hyn. O ganlyniad, cafodd y Bwrdd lechyd ddyraniad cyfalaf ychwanegol o £4.9 miliwn tuag at ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf ym Mis 9 ac mae angen dyraniad arall gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i gyflawni ei ymrwymadau gwariant parhaus am weddill y flwyddyn ariannol. Os eir y tu hwnt i'r terfyn adnoddau byddaf yn rhoi barn amodol ar reoleidd-dra ac yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol gan esbonio'r methiant a'r amgylchiadau lle y cododd.</p> <p>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y corff gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr gael eu gogwyddo mewn ymdrech i fodloni'r Terfyn Adnoddau Cyfalaf.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwyddo wrth gofnodi.</p>	<p>Cwblheais brofion archwilio â ffocws ar ddsbarthu gwariant yn refeniw neu'n gyfalaf ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth o ddyfarniadau wedi'u gogwyddo. Deuthum i'r casgliad i'r Bwrdd lechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol ond dim ond oherwydd arian adnoddau cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn y llwyddwyd i wneud hynny.</p>

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau mawr o ran ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd adroddiad monitro mis 10 ddiffyg/balans arian parod o £10.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amseroedd talu credydwr ac effeithio'n andwyol ar berfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio perfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus gan ystyried y pwysau arian parod ar y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Archwiliais berfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd. Nododd nad oedd wedi cyflawni targed Llywodraeth Cymru, sef talu 95 y cant o nifer y credydwr nad oeddent yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod i ddarpariaeth. Ni nodais unrhyw faterion i fynd i'r afael â hwy.</p>
<p>Mae perygl na fydd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ISA 27 <i>Datganiadau Ariannol Cyfun ac Ar Wahân</i>.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn trafod gofynion cyfrifyddu ISA 27 gyda swyddogion y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall ac yn cysylltu â thîm archwilio Llywodraeth Cymru i gytuno ar y gofynion ar gyfer 2013-14.</p>	<p>O 2013-14 ymlaen, cytunwyd wedyn y byddai Llywodraeth Cymru yn cyfuno Elusennau GIG Byrddau Iechyd yn ei chyfrifon. Felly, nid oedd angen cyfuno ar lefel bwrdd Iechyd.</p>
<p>Mae risg nad yw pecynnau ymadael a delir gan y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Ystyrir bod taliadau o'r fath yn sensitif a pherthnasol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried rheoleidd-dra pecynnau ymadael, a'u triniaeth gyfrifyddu a'r broses o'u datgelu</p>	<p>Adolygais reoleidd-dra pecynnau ymadael, eu triniaeth gyfrifyddu a'r broses o'u datgelu. Ni nodais unrhyw faterion i fynd i'r afael â hwy.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk